

Adroddiad i'r: Cyngor

Dyddiad y Cyfarfod 7 Rhagfyr 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog Gary Williams, Pennaeth y
Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd

Awdur yr Adroddiad: Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol,
Adnoddau Dynol a Democrataidd

Teitl Rôl y Cefnogwr Pobl Ifanc

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â chynnig i greu rôl Cefnogwr Pobl Ifanc.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. 2.1 Ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i greu rôl Cefnogwr Pobl Ifanc a'r disgrifiad o'r rôl a nodir yn Atodiad 5.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1.3.1 Bod y Cyngor yn cymeradwyo greu rôl Cefnogwr Pobl Ifanc yn unol â'r disgrifiad o'r rôl a nodir yn Atodiad 5.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ym mis Tachwedd 2012 penderfynodd y Cyngor y dylid bod â phedwar aelod gefnogwr. Sef:

- Cefnogwr Pobl Hŷn
- Cefnogwr Atal Digartrefedd
- Cefnogwr Gofalwyr
- Cefnogwr Anableddau Dysgu

- 4.2. Mabwysiadodd y Cyngor ddisgrifiadau o'r rolau cefnogi hyn ac mae copïau ohonynt ynghlwm fel Atodiadau 1-4 o'r adroddiad hwn.
- 4.3. Ym mis Ebrill 2013 derbyniodd y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (a oedd yn cael ei alw bryd hynny'n Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol) na ddylai fod unrhyw aelod gefnogwyr unigol ychwanegol ac y byddai unrhyw rolau 'cefnogi' eraill a argymhellwyd naill ai'n genedlaethol neu'n lleol yn cael eu hymgydryd â hwy gan yr Aelod Arweiniol perthnasol.
- 4.4. Ar 7 Medi 2021 ystyriodd y Cyngor y rhybudd o gynnig canlynol:
- “Bod Cyngor Sir Ddinbych yn penodi Cefnogwr Pobl Ifanc ar gyfer plant a phobl ifanc o bob oed hyd at 18.”
- 4.5. Penderfynodd y Cyngor y byddai adroddiad ar y rôl Cefnogwr Pobl Ifanc yn cael ei roi gerbron y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ddiffinio'r rôl ac y byddai adroddiad pellach yn cael ei roi gerbron y Cyngor Llawn.
- 4.6. Mae disgrifiad o'r rôl wedi'i ddrafftio ac wedi'i atodi yn Atodiad 5 i'r adroddiad hwn. Mae'r disgrifiad wedi'i ddrafftio i ddilyn yr un ffurf a'r disgrifiadau rôl a fabwysiadwyd ar gyfer y cefnogwyr eraill ac sydd i'w gweld yn atodiadau 1- 4.
- 4.7. Gofynnwyd i'r Pwyllgor hefyd ystyried cynnwys y disgrifiad rôl drafft hwn yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd 2021, a ddylai'r rôl gael eu llenwi gan yr Aelod Arweiniol perthnasol neu aelod heb fod ar y Cabinet, ac argymhell i'r Cyngor a ddylid mabwysiadu'r disgrifiad rôl fel y'i drafftiwyd neu fel y bydd y Pwyllgor yn ei ddiwygio.
- 4.8. 4.8 Cytunodd y Pwyllgor i argymhell i'r Cyngor y dylid creu rôl Cefnogwr Pobl Ifanc ac y dylai'r gwaith gael ei wneud gan aelod heb fod ar y Cabinet. Roedd y Pwyllgor yn credu y dylai'r diffiniad o berson ifanc gynnwys unigolion hyd at 25 oed ac y dylid diwygio disgrifiad o'r rôl i adlewyrchu hyn.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Byddai'r rôl Cefnogwr Pobl Ifanc yn cyd-fynd â'r flaenoriaeth gorfforaethol bod Sir Ddinbych yn rhywle y mae pobl ifanc yn dymuno byw a gweithio a chanddynt y sgiliau angenrheidiol i wneud hynny.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Fe allai costau teithio achlysurol godi os bydd aelod gefnogwr yn mynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n berthnasol i'w rôl fel cefnogwr. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol a glustnodir ar gyfer teithio gan aelodau

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gyda Chraffu. Mae'r mater wedi'i gyfeirio'n uniongyrchol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gan y Cyngor. Mae argymhellion Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi'u hadlewyrchu ym mharagraff 4.8 yr adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r adroddiad yn cadarnhau y bydd unrhyw gostau bach ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau presennol a glustnodwyd ar gyfer teithio gan aelodau Nid yw'n ymddangos bod unrhyw ystyriaethau ariannol ehangach.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg y bydd dryswch neu ddyblygu'n digwydd rhwng rôl Aelod Gefnogwr a rôl yr Aelod Arweiniol perthnasol os nad y Cefnogwr yw'r Aelod Arweiniol hefyd. Bydd yn bosibl lliniaru hyn drwy fod â disgrifiad rôl clir a pherthynas weithio dda rhwng yr Aelod Arweiniol a'r Cefnogwr.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972